# S4C: DATGANIAD O BOLISI RHAGLENNI

Ar gyfer y cyfnod 01 Ionawr – 31 Rhagfyr 2026

## 1. Cyflwyniad a chwmpas

S4C yw unig ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus pwrpasol cyfrwng Cymraeg y Deyrnas Unedig, ac mae'n meddiannu safle unigryw a hanfodol o fewn y dirwedd ddarlledu. Fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, mae gan S4C gyfrifoldeb nodedig i wasanaethu cymunedau Cymraeg eu hiaith, gan gyfrannu ar yr un pryd at y remit gwasanaeth cyhoeddus ehangach ar gyfer teledu ar draws y Deyrnas Unedig. Mae'r rôl hon yn ymestyn y tu hwnt i ddarlledu traddodiadol i gynnwys hyrwyddo a normaleiddio'r Gymraeg a diwylliant Cymru drwy gynnwys clyweledol o safon uchel ac amrywiol. Wrth wneud hynny, mae S4C yn chwarae rhan hanfodol yn cynnal y Gymraeg fel modd byw, bob dydd o gyfathrebu, gan gefnogi ei bywiogrwydd, ei defnydd a'i throsglwyddiad rhwng cenedlaethau.

Mae Deddf y Cyfryngau 2024 wedi cyflwyno newidiadau sylweddol i fframwaith gweithredu S4C, gan ail-lunio'r ffordd y mae'n cyflawni ei rwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus. Yn benodol, mae dileu'r cyfyngiadau daearyddol blaenorol yn galluogi S4C i wneud ei wasanaethau ar gael ledled y Deyrnas Unedig drwy lwyfannau digidol ac ar-lein, gan ei alluogi i wasanaethu cynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith ble bynnag y maent wedi'u lleoli. Mae'r newidiadau hyn yn atgyfnerthu gallu S4C i gyflawni ei remit mewn amgylchedd digidol, tra'n cynnal y gofyniad statudol bod cyfran sylweddol o'i gynnwys yn Gymraeg.

Mae'r Datganiad o Bolisi Rhaglenni hwn yn nodi sut mae S4C yn bwriadu cyflawni ei remit gwasanaeth cyhoeddus ar draws ei wasanaethau perthnasol. Mae'n adlewyrchu'r fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddiol diwygiedig, gan gynnwys yr ystod ehangach o wasanaethau clyweledol sydd bellach yn cael eu cydnabod, ac yn amlinellu dull S4C o ran polisi rhaglenni, hygyrchedd a chydymffurfiaeth. Mae'r Datganiad hefyd yn dangos ymrwymiad S4C i dryloywder ac atebolrwydd o ran y modd y mae'n darparu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus mewn tirwedd gyfryngol sy'n esblygu'n gyflym.

## 2. Remit gwasanaeth cyhoeddus S4C

### 2.1. <u>Remit gwasanaeth cyhoeddus unigol S4C</u>

Mae S4C yn ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus statudol, gyda remit gwasanaeth cyhoeddus wedi'i nodi yn Neddf Cyfathrebiadau 2003, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Cyfryngau 2024. Remit S4C yw darparu ystod eang o gynnwys clyweledol o ansawdd uchel ac amrywiol, y mae cyfran sylweddol ohono yn Gymraeg. Mae'r remit hwn yn gymwys ar draws gwasanaeth teledu llinol S4C a'i wasanaethau rhaglenni ar y rhyngrwyd. Wrth gyflawni'r rôl hon, mae S4C yn cyfrannu at gynaliadwyedd hirdymor y Gymraeg drwy sicrhau bod gan yr iaith bresenoldeb amlwg, ystyrlon a chyfoes ar draws cyfryngau modern.

Fel y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus cyfrwng Cymraeg, mae'r mwyafrif llethol o'r cynnwys a gyhoeddir gan S4C o'u natur yn cyflawni ei remit gwasanaeth cyhoeddus, gan adlewyrchu rôl ganolog cynnwys Cymraeg ar draws ei wasanaethau.

Ceir amgylchiadau cyfyngedig ac wedi'u diffinio'n glir lle gall deunydd a wneir ar gael gan S4C syrthio y tu allan i gynnwys remit gwasanaeth cyhoeddus. Gall hyn gynnwys,

er enghraifft, sylwebaeth achlysurol yn Saesneg sy'n cyd-fynd â darllediadau chwaraeon byw, neu ddeunydd ategol neu gyd-destunol arall. Mae cynnwys o'r fath yn cynrychioli cyfran fach iawn o allbwn cyffredinol S4C, ac nid yw'n tanseilio natur sylfaenol wasanaeth cyhoeddus gwasanaethau llinol ac ar-alw S4C.

2.2. <u>Cyfraniad at y remit darlledu gwasanaeth cyhoeddus ehangach</u>

Drwy ei rôl fel y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus cyfrwng Cymraeg, mae S4C yn chwarae rhan nodedig o fewn y system ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus ehangach. Mae ei wasanaethau llinol ac ar-alw yn cyfrannu at ddarparu gwybodaeth, addysg ac adloniant yn Gymraeg, gan adlewyrchu bywyd yng Nghymru a chefnogi mynegiant diwylliannol ac amrywiaeth greadigol ar draws y Deyrnas Unedig.

Mae'r cyfraniad hwn yn cynnwys newyddion a materion cyfoes yn Gymraeg, cynnwys ar gyfer plant a phobl ifanc, rhaglenni addysgol, ac ystod eang o gynnwys drama, ffeithiol a diwylliannol gwreiddiol. Drwy weithio mewn partneriaeth â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill a'r sector cynhyrchu annibynnol, mae S4C yn cefnogi amrywiaeth a dewis o fewn y dirwedd darlledu gwasanaeth cyhoeddus, gan sicrhau bod cynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith yn cael eu cynrychioli'n llawn fel rhan o'r system PSB gyffredinol.

2.3. <u>Amcanion a blaenoriaethau trosfwaol S4C ar gyfer y flwyddyn i ddod</u>

Yn ystod y flwyddyn i ddod, mae amcanion trosfwaol S4C yn canolbwyntio ar sicrhau bod ei wasanaethau'n parhau i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd ac i gyflawni ei remit gwasanaeth cyhoeddus.

Yn seiliedig ar ymchwil, mewnwelediad ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd, bydd S4C yn blaenoriaethu gwasanaethu siaradwyr Cymraeg, dysgwyr a chynulleidfaoedd ehangach sydd â diddordeb mewn cynnwys cyfrwng Cymraeg, gyda phwyslais penodol ar y cynulleidfaoedd blaenoriaeth a nodir yn strategaeth gorfforaethol 2025–30: *Mwy na sianel deledu*. Mae'r blaenoriaethau hyn yn adlewyrchu newidiadau mewn demograffeg, arferion gwylio sy'n esblygu, a phwysigrwydd cynyddol gwasanaethau digidol wrth gyrraedd cynulleidfaoedd. Gyda'i gilydd, maent yn llywio'r ffordd y bydd S4C yn darparu gwasanaeth cyhoeddus cyfrwng Cymraeg eang, hygyrch a pherthnasol yn y flwyddyn i ddod.

Bydd S4C yn monitro'r ddarpariaeth yn erbyn y nodau hyn drwy ystod o fesurau perfformiad a metrigau strategol – gan gynnwys cyrhaeddiad cynnwys, demograffeg cynulleidfaoedd, ymgysylltiad ar draws llwyfannau a defnydd o S4C Clic. Bydd y mesurau hyn yn llywio penderfyniadau comisiynu, cyhoeddi a buddsoddi drwy gydol y flwyddyn, gan gefnogi dull cytbwys sy'n cyfuno twf cynulleidfaoedd, ansawdd a hynodrwydd.

## 3. Gofynion rheoleiddiol perthnasol eraill

3.1. <u>Cwotâu rhaglenni</u>

O dan Ddeddf y Cyfryngau 2024, mae gan S4C gwotâu rhaglenni newydd i'w bodloni o 01 Ionawr 2026 ymlaen, gyda mwy o hyblygrwydd i'w cyflawni ar draws sianel deledu llinol S4C a'i wasanaeth rhaglenni ar-alw dynodedig (y disgwylir iddo fod yn S4C Clic). Mae'r cwotâu newydd fel a ganlyn:

Mae cwotâu blynyddol S4C ar gyfer Cynyrchiadau Gwreiddiol (drwy'r dydd), Cynyrchiadau Gwreiddiol (oriau brig) a Chynyrchiadau Annibynnol wedi'u nodi isod:

| | Cwota (oriau) |
|---|---|
| Cynhyrchiad Gwreiddiol – Drwy'r dydd | 5,200 |
| Cynhyrchiad Gwreiddiol – Oriau brig 18:00–22:30 | 1,390 |
| Cynhyrchiad Annibynnol – Drwy'r dydd | 375 |

Yn ogystal, mae gan S4C y cwotâu canlynol ar gyfer Newyddion a Materion Cyfoes, sy'n parhau heb newid:

| | Cwota (oriau) |
|---|---|
| Newyddion Cenedlaethol a Rhyngwladol – Drwy'r dydd | 200 |
| Newyddion Cenedlaethol a Rhyngwladol – Oriau brig 18:00–22:30 | 150 |
| Materion Cyfoes – Drwy'r dydd | 60 |
| Materion Cyfoes – Oriau brig 18:00–22:30 | 30 |

Mae gan S4C hefyd gwotâu blynyddol ar gyfer rhaglenni Ewropeaidd, rhaglenni Ewropeaidd (annibynnol) a rhaglenni Ewropeaidd annibynnol (gweithiau diweddar), fel a ganlyn:

| | Cwota (canran) |
|---|---|
| Rhaglenni Ewropeaidd | 50 |
| Rhaglenni Ewropeaidd (annibynnol) | 10 |
| Rhaglenni Ewropeaidd annibynnol (gweithiau diweddar) | 5 |

### 3.2. Trefniadau comisiynu

Mae S4C wedi diwygio ei God Ymarfer Comisiynu (yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Ofcom) er mwyn adlewyrchu'r newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf y Cyfryngau 2024 a chanllawiau diwygiedig Ofcom. Bwriedir i'r Cod hwn ddarparu arweiniad i'r sector cynhyrchu teledu annibynnol ynghylch y prif egwyddorion a'r prosesau a gymhwysir gan S4C wrth gomisiynu cynnwys i'w gyhoeddi ar sianel deledu llinol S4C a/neu ar S4C Clic.

### 3.3. Newidiadau sylweddol

Wrth i S4C gyflawni ei strategaeth digidol-yn-gyntaf, bydd yn gynyddol yn comisiynu cynnwys i'w gyhoeddi ar S4C Clic cyn ei ddarlledu'n llinol, neu i'w gyhoeddi ar S4C Clic yn unig, lle bo'n briodol. Lle caniateir o dan y ddeddfwriaeth neu ganllawiau Ofcom ar fodloni cwotâu, mae S4C yn bwriadu cynnwys cynnwys cyfrwng Cymraeg digidol-yn-gyntaf neu ddigidol-yn-unig ar S4C Clic wrth gyflawni ei gwotâu a'i remit gwasanaeth cyhoeddus.

## 4. Gwasanaethau perthnasol a ddefnyddir i gyflawni'r remit

### 4.1. Trosolwg o'r gwasanaethau perthnasol

Mae'r adran hon yn nodi'r gwasanaethau y mae S4C yn eu defnyddio i gyflawni ei remit gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys ei wasanaeth teledu llinol a S4C Clic, ac yn esbonio sut mae'r polisi rhaglenni yn gymwys ar eu traws. Mae hefyd yn gwahaniaethu rhwng y gwasanaethau craidd hyn, y dibynnir arnynt ar gyfer cyflawni'r remit yn statudol, a llwyfannau eraill sy'n cefnogi cyrhaeddiad, ymgysylltiad a darganfyddadwyedd cynnwys cyfrwng Cymraeg.

### 4.2. Gwasanaeth teledu llinol S4C

Mae gwasanaeth teledu llinol S4C yn parhau i fod yn brif gyfrwng drwy'r hwn y mae S4C yn cyflawni ei remit gwasanaeth cyhoeddus, gan ddarparu rheoleidd-dra, cyffredinolrwydd a hygyrchedd i gynulleidfaoedd. Mae cynnwys a ddarlledir ar y gwasanaeth llinol yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni remit gwasanaeth cyhoeddus S4C. Mae hyn yn adlewyrchu rôl S4C fel y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus cyfrwng Cymraeg.

Mae'r gwasanaeth llinol ar gael yn eang drwy ystod o lwyfannau teledu, gan gynnwys teledu digidol daearol (yng Nghymru), a gwasanaethau lloeren a chebl (ar draws y Deyrnas Unedig), yn ogystal â llwyfannau teledu a ddarperir dros y rhyngrwyd. Mae hyn yn sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu cael mynediad at S4C drwy lwybrau cyfarwydd a sefydledig, gan gynnwys lleoliad amlwg o fewn canllawiau rhaglenni electronig (EPGs) yng Nghymru, gan gefnogi darganfyddadwyedd a gwylio rheolaidd. Mae cynnwys darlledu llinol hefyd yn cael ei ffrydio'n fyw ar S4C Clic, gan gryfhau'r cysylltiad rhwng gwylio wedi'i drefnu a mynediad ar-alw.

Mae'r gwasanaeth llinol yn parhau i chwarae rhan bwysig i gynulleidfaoedd sy'n ffafrio teledu wedi'i amserlennu a phrofiadau gwylio a rennir, ac wrth sicrhau bod cynnwys cyfrwng Cymraeg yn parhau'n amlwg ac yn hawdd ei ganfod. Gwneir penderfyniadau amserlennu yng nghyd-destun gwasanaethau ehangach S4C, gan gydnabod y berthynas agos rhwng trosglwyddo llinol a dosbarthiad digidol.

### 4.3. S4C Clic

S4C Clic yw gwasanaeth ar-alw pwrpasol S4C, sy'n galluogi cynulleidfaoedd i gael mynediad at gynnwys gwasanaeth cyhoeddus cyfrwng Cymraeg mewn amgylchedd digidol. Mae cynnwys a wneir ar gael ar S4C Clic yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni remit gwasanaeth cyhoeddus S4C, ochr yn ochr â chynnwys a ddarlledir ar y gwasanaeth llinol. Mae Deddf y Cyfryngau 2024 yn egluro'r cysyniad o 'gynnwys remit gwasanaeth cyhoeddus' ar gyfer gwasanaethau rhaglenni ar y rhyngrwyd, gan atgyfnerthu'r safbwynt bod darpariaeth ar-alw S4C yn rhan annatod o'r ffordd y mae'n bodloni ei rwymedigaethau statudol.

Mae S4C Clic yn galluogi cynulleidfaoedd i wylio cynnwys ar adeg ac ar ddyfais sy'n gweddu iddynt, gan ymestyn argaeledd y tu hwnt i ddarlledu a chefnogi gwylio hyblyg ar draws setiau teledu clyfar, dyfeisiau symudol a llwyfannau gwe. Yn gyffredinol, mae cynnwys remit gwasanaeth cyhoeddus ar S4C Clic ar gael am 30 diwrnod neu fwy, gyda rhai eithriadau cyfyngedig megis cynnwys newyddion a rhai cynnwys chwaraeon, lle gall yr argaeledd fod yn fyrrach oherwydd natur amser-sensitif y deunydd neu ystyriaethau hawliau.

Yn gynyddol, mae S4C yn cynnig cynnwys byw wedi'i ffrydio ar-lein yn unig ar S4C Clic er mwyn ehangu ei gynnig i gynulleidfaoedd. Mae hyn yn cynnwys cynnwys chwaraeon byw ychwanegol wedi'i ffrydio, yn ogystal â darllediadau helaeth o ddigwyddiadau cenedlaethol megis yr Eisteddfod Genedlaethol, Eisteddfod yr Urdd a Sioe Frenhinol Cymru.

Drwy S4C Clic, mae S4C yn gallu cyrraedd cynulleidfaoedd sy'n llai tebygol o ymgysylltu â theledu llinol, tra'n darparu cynnig gwasanaeth cyhoeddus cydlynol a chyson ar draws gwylio ar-alw a byw. Mae Clic yn chwarae rôl allweddol wrth gefnogi cyrhaeddiad cynulleidfaoedd, ymgysylltiad a chynaliadwyedd hirdymor gwylio cyfrwng Cymraeg.

4.4. <u>Gwasanaethau a llwyfannau eraill sy'n cefnogi cyflawni'r remit</u>

Yn ogystal â'i wasanaeth teledu llinol a S4C Clic, mae S4C yn gwneud cynnwys ar gael ar draws ystod o wasanaethau a llwyfannau eraill er mwyn cefnogi cyrhaeddiad, ymgysylltiad a darganfyddadwyedd cynnwys cyfrwng Cymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys llwyfannau a gwasanaethau trydydd parti nad ydynt yn cael eu gweithredu na'u rheoli gan S4C, megis BBC iPlayer, YouTube a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â gwefan S4C ei hun a gwasanaethau digidol cysylltiedig – gan gynnwys NS4C, gwasanaeth newyddion digidol cyfrwng Cymraeg S4C, sydd ar gael drwy wefan ac ap.

Mae'r gwasanaethau hyn yn chwarae rôl bwysig wrth helpu cynulleidfaoedd i ganfod a chysylltu â chynnwys S4C, yn enwedig mewn amgylcheddau digidol lle mae arferion gwylio'n fwyfwy dameidiog. Maent hefyd yn cefnogi datblygu cynulleidfaoedd, hyrwyddo ac ymgysylltu â chynnwys cyfrwng Cymraeg y tu hwnt i wasanaethau craidd S4C.

Fodd bynnag, at ddibenion y Datganiad o Bolisi Rhaglenni hwn, cyflawnir darpariaeth statudol S4C o'i remit gwasanaeth cyhoeddus drwy ei wasanaeth teledu llinol a S4C Clic (gan dybio y bydd hwn yn dod yn Wasanaeth Rhaglenni Rhyngrwyd Dynodedig S4C). Er bod gwasanaethau a llwyfannau eraill yn cefnogi ac yn ategu'r ddarpariaeth hon, nid ydynt yn cael eu dibynnu arnynt at ddibenion bodloni gofynion statudol y polisi rhaglenni.

## 5. Polisi rhaglenni ar gyfer 2026

5.1. <u>Diwallu anghenion y gynulleidfa</u>

Mae polisi rhaglenni S4C yn cael ei lunio ar sail dealltwriaeth glir o'r cynulleidfaoedd y mae'n eu gwasanaethu a'r ffyrdd y maent yn ymgysylltu â chynnwys cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys siaradwyr Cymraeg, pobl sy'n dysgu Cymraeg a chynulleidfaoedd ehangach sydd â diddordeb mewn cynnwys o Gymru, ar draws gwasanaethau llinol a digidol.

Mae mewnwelediad cynulleidfaoedd yn chwarae rhan ganolog wrth lywio penderfyniadau. Mae S4C yn tynnu ar gyfuniad o ymchwil cynulleidfaoedd, data gwylio a defnydd ar draws llwyfannau, mewnwelediad ansoddol ac adborth gan gynulleidfaoedd, ochr yn ochr ag ymgysylltu parhaus â chynulleidfaoedd a rhanddeiliaid. Mae hyn yn helpu S4C i ddeall gwahaniaethau mewn ymddygiad gwylio

yn ôl oedran, hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg, a'r llwyfan a ffefrir, ac i ymateb i batrymau defnydd sy'n newid.

Yn unol â'i strategaeth gorfforaethol 2025–30, mae S4C yn rhoi pwyslais penodol ar gyrraedd ac ymgysylltu â grwpiau cynulleidfa allweddol, gan gynnwys cynulleidfaoedd iau, cynulleidfaoedd 25–44 a 45–64 oed, cynulleidfaoedd mewn cartrefi dwyieithog, a siaradwyr Cymraeg llai hyderus a dysgwyr. Mae canolbwyntio ar y cynulleidfaoedd hyn yn cefnogi cynaliadwyedd hirdymor gwylio cyfrwng Cymraeg ac yn adlewyrchu newid demograffig ehangach a thwf arferion gwylio digidol-yn-gyntaf.

Defnyddir ystod o ddangosyddion perfformiad allweddol strategol a mesurau perfformiad i fonitro sut mae cynulleidfaoedd yn ymgysylltu â chynnwys S4C. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau o gyrhaeddiad cynnwys, demograffeg cynulleidfaoedd ac ymgysylltiad ar draws llwyfannau, yn ogystal â dangosyddion sy'n ymwneud â defnydd o S4C Clic, megis cofrestriadau defnyddwyr ac ymddygiad gwylio. Gyda'i gilydd, mae'r mesurau hyn yn darparu tystiolaeth i lywio penderfyniadau comisiynu, cyhoeddi ac amserlennu.

Mae mewnwelediad cynulleidfaoedd a data perfformiad yn dylanwadu ar fuddsoddiad ar draws genres a fformatau, penderfyniadau ynghylch arloesi a syniadau newydd, a'r ffordd y caiff cynnwys ei guradu a'i wneud yn amlwg ar y gwasanaeth llinol a S4C Clic. Wrth wneud hynny, mae S4C yn ceisio cydbwyso anghenion cynulleidfaoedd sefydledig â'r cyfle i ddenu gwylwyr newydd, gan gynnal ansawdd, hynodrwydd a gwerth cyhoeddus.

5.2. <u>Argaeledd</u>

Mae gwneud cynnwys cyfrwng Cymraeg yn hawdd ei ganfod a'i gyrchu yn rhan allweddol o strategaeth gorfforaethol S4C. Mae S4C yn ceisio sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu gwylio cynnwys mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu arferion gwylio sy'n newid, tra'n parhau i gynnig gwasanaeth llinol cyffredinol.

Wrth i ymddygiad cynulleidfaoedd barhau i esblygu, mae twf gwylio ar-alw a phwysigrwydd cynyddol llwyfannau teledu cysylltiedig yn dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch ble a sut y mae cynnwys S4C yn cael ei wneud ar gael. Ochr yn ochr â chynnig llinol cryf, yn ystod 2026 mae S4C yn bwriadu parhau i wella argaeledd ei gynnwys, gyda ffocws penodol ar gynyddu cyrhaeddiad a defnydd o S4C Clic. Mae hyn yn cynnwys ehangu argaeledd Clic ar draws llwyfannau ychwanegol, gwella mynediad at gynnwys byw ac ar-alw, a sicrhau profiad cyson ar draws dyfeisiau.

Yng ngoleuni Deddf y Cyfryngau 2024, mae S4C eisoes wedi dechrau trafodaethau gyda llwyfannau ychwanegol i gynyddu argaeledd S4C Clic ac amlygrwydd cynnwys S4C. Mae'r trafodaethau hyn yn digwydd o fewn fframwaith rheoleiddiol sy'n datblygu, ac mae S4C yn disgwyl i'r trafodaethau ddod i ben unwaith y bydd Ofcom wedi cyhoeddi ei god a'i ganllawiau terfynol. Mae S4C hefyd yn bwriadu gwneud cais am gydnabyddiaeth fel Gwasanaeth Rhaglenni Rhyngrwyd Dynodedig (DIPS) ar gyfer S4C Clic yn ystod 2026.

Drwy'r dull hwn, mae S4C yn ceisio cefnogi cynnydd mewn cyrhaeddiad ac ymgysylltiad, tra'n sicrhau bod cynnwys cyfrwng Cymraeg yn parhau'n ganolog, yn weladwy ac yn cael ei werthfawrogi ar draws llwyfannau.

## 5.3. Y Gymraeg

Mae'r Gymraeg yn sail i holl weithgarwch S4C. Pwrpas S4C yw "dangos ein byd drwy'r Gymraeg", ac mae hyn yn llywio penderfyniadau ynghylch comisiynu, amserlennu a chyhoeddi ar draws ei wasanaethau. Drwy ystod eang o gynnwys o ansawdd uchel ac amrywiol, mae S4C yn darparu gofod lle mae'r Gymraeg yn cael ei chlywed, ei gweld a'i defnyddio fel rhan naturiol o fywyd bob dydd.

Fel yr unig ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus pwrpasol cyfrwng Cymraeg, mae S4C yn chwarae rôl hollbwysig wrth gynnal y Gymraeg ei hun. Drwy ddarparu presenoldeb cyfrwng Cymraeg parhaus, gweladwy a hygyrch ar draws genres a llwyfannau, mae S4C yn cefnogi bywiogrwydd y Gymraeg, ei defnydd bob dydd a'i throsglwyddiad rhwng cenedlaethau. Mae'r cyfraniad hwn yn strwythurol yn hytrach na symbolaidd: mae S4C yn helpu i sicrhau bod y Gymraeg yn parhau'n iaith fyw, ymarferol o fewn bywyd cyhoeddus a diwylliannol modern.

Mae S4C yn ceisio portreadu'r Gymraeg fel iaith fyw a chyfoes ar draws pob genre, gan adlewyrchu Cymru gyfoes a'i chymunedau. Nod cynnwys S4C yw ysbrydoli hyder a balchder yn yr iaith, tra'n parhau'n hygyrch ac yn berthnasol i siaradwyr rhugl, dysgwyr, cynulleidfaoedd iau a phobl sy'n byw mewn cartrefi dwyieithog. Wrth i fwy o bobl ddod i gysylltiad â'r Gymraeg drwy addysg yn hytrach nag yn y cartref, mae rôl S4C wrth normaleiddio defnydd iaith bob dydd yn parhau i dyfu mewn pwysigrwydd.

Mae cynnwys ar gyfer plant a phobl ifanc yn arbennig o bwysig yn y cyd-destun hwn, gan gefnogi caffael iaith, hyder a throsglwyddiad rhwng cenedlaethau. Mae S4C hefyd yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod cynnwys cyfrwng Cymraeg yn amlwg ac yn hawdd ei ganfod mewn amgylcheddau digidol, lle mae cynnwys Saesneg yn dominyddu. Drwy ei ddull cyhoeddi, gan gynnwys datblygiad S4C Clic, mae S4C yn ceisio dod â'r Gymraeg i'r amlwg ar draws llwyfannau.

## 5.4. Hygyrchedd

Mae S4C wedi ymrwymo i sicrhau bod ei gynnwys yn gallu cael ei gyrchu a'i fwynhau gan gynulleidfa mor eang â phosibl. Ystyrir hygyrchedd ar draws gwasanaethau darlledu ac ar-alw.

Darperir isdeitlau, disgrifiad sain a chynnwys wedi'i lofnodi ar y gwasanaeth llinol, gan ragori ar ofynion rheoleiddiol, ac mae hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu wrth gyhoeddi cynnwys ar S4C Clic, gan alluogi cynulleidfaoedd i elwa ar gynnwys hygyrch p'un a ydynt yn gwylio'n fyw neu ar-alw. Mae S4C yn cynnig isdeitlau'n eang yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan roi'r dewis i gynulleidfaoedd ddewis eu hiaith ddewisol.

Nid yw hygyrchedd yn gyfyngedig i fformatau cynnwys yn unig. Mae defnyddioldeb a hygyrchedd gwasanaeth S4C Clic ei hun hefyd yn ystyriaethau pwysig, gan gynnwys rhwyddineb llywio ac eglurder cyflwyniad ar draws dyfeisiau megis setiau teledu clyfar, dyfeisiau symudol a phorwyr gwe. Yn ystod 2026, bydd S4C yn parhau i ddatblygu a gwella Clic i gefnogi hygyrchedd a defnyddioldeb ar draws llwyfannau, gan gadw'r ddarpariaeth dan adolygiad wrth i dechnolegau, disgwyliadau cynulleidfaoedd ac arferion gwylio esblygu.

5.5. Ystod o genres

Mae S4C yn gweithredu fel gwasanaeth cyfrwng Cymraeg at bob diben, gan gynnig cynnwys ar gyfer cynulleidfaoedd o bob oed a diddordeb. Mae ei genhadaeth — "ysbrydoli, diddanu ac adlewyrchu Cymru gyda chynnwys gwych i bawb" — yn llywio'r ystod o genres a gynigir ar draws ei wasanaethau.

Mae S4C yn darparu cymysgedd eang a chytbwys o genres o ansawdd uchel, gan gynnwys newyddion a materion cyfoes, drama, comedi, rhaglenni ffeithiol a dogfen, chwaraeon, adloniant, cynnwys i blant a phobl ifanc, a rhaglenni diwylliannol a chelfyddydol. Mae'r ehangder hwn yn cefnogi rôl gyffredinol S4C ac yn helpu i sicrhau bod cynnwys cyfrwng Cymraeg yn parhau'n berthnasol ac yn ddeniadol i gynulleidfa eang.

Mae chwaraeon, yn arbennig, yn chwarae rôl bwysig wrth ymgysylltu cynulleidfaoedd â chynnwys cyfrwng Cymraeg ac wrth adlewyrchu eiliadau diwylliannol a rennir a bywyd cenedlaethol yng Nghymru. Mae ei gynnwys yn rhan o'r cynnig yn helpu i ddenu a chadw ystod eang o wylwyr, gan gynnwys y rhai sy'n siarad Cymraeg yn llai hyderus neu sydd eto i ddechrau ar eu taith ddysgu gyda'r iaith. Drwy gyflwyniad a sylwebaeth fyw, mae darllediadau chwaraeon yn rhoi cyfleoedd i gynulleidfaoedd ddod i gysylltiad â'r Gymraeg mewn cyd-destunau hygyrch a chyfarwydd, gan gefnogi ymgysylltiad a chysylltiad â chynnig ehangach S4C o ran cynnwys cyfrwng Cymraeg.

Ar draws pob genre, cyflwynir cynnwys gyda llais a safbwynt Cymreig unigryw, gan adlewyrchu bywyd yng Nghymru, ei chymunedau a'i diwylliant. Mae'r cymysgedd o genres yn parhau i esblygu mewn ymateb i ddisgwyliadau cynulleidfaoedd ac arferion gwylio sy'n newid, tra'n cynnal cydbwysedd rhwng fformatau sefydledig ac arloesi.

5.6. Cynnwys newyddion a materion cyfoes

Mae newyddion a materion cyfoes yn chwarae rhan ganolog yng nghynnig rhaglenni S4C, gan gefnogi dealltwriaeth ddinesig a thrafodaeth wybodus drwy ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae S4C yn darlledu newyddion rheolaidd cyfrwng Cymraeg ar ei wasanaeth llinol. Darperir y cynnwys newyddion darlledu hwn gan y BBC, gan sicrhau ffynhonnell ddibynadwy ac awdurdodol o newyddion cyfrwng Cymraeg. Mae rhaglenni newyddion llinol yn cael eu ffrydio'n fyw ar S4C Clic ac ar gael ar-alw am gyfnod cyfyngedig.

Mae rhaglenni materion cyfoes cyfrwng Cymraeg yn cael eu comisiynu'n bennaf gan ITV ac yn darparu dyfnder, dadansoddiad a chyd-destun, gan ategu'r ddarpariaeth newyddion ddyddiol a galluogi archwiliad manylach o faterion gwleidyddol, cymdeithasol a diwylliannol sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd yng Nghymru. Mae S4C hefyd yn gwasanaethu'r gymuned amaethyddol drwy ddarparu cyfres materion cyfoes amaethyddol sydd wedi hen ennill ei phlwyf.

Rhoddir amlygrwydd clir i gynnwys newyddion a materion cyfoes ar S4C Clic drwy gategoreiddio a chyflwyniad clir, gan helpu cynulleidfaoedd i ddod o hyd i newyddion dibynadwy yn rhwydd mewn amgylchedd digidol. Drwy'r ddarpariaeth hon, mae S4C hefyd yn cyfrannu at lythrennedd y cyfryngau drwy helpu cynulleidfaoedd i ddeall materion cymhleth, asesu gwybodaeth yn feirniadol a llywio cam-wybodaeth a thwyll-wybodaeth, wedi'i ategu gan safonau golygyddol uchel a didueddrwydd.

Cefnogir y gwaith hwn gan fentrau ehangach megis *Newyddion i Bawb*, prosiect ymchwil sy’n cynnwys S4C ac sy’n archwilio sut mae gwahanol gynulleidfaoedd yn ymgysylltu â newyddion a newyddiaduraeth, a sut y gall dulliau mwy cynhwysol a hygyrch gryfhau dealltwriaeth, ymddiriedaeth a chyfranogiad. Disgwylir i’r prosiect ddod i ben yn ystod 2026, a bydd yn cynhyrchu mewnwelediad a dysgu i lywio dull S4C o ddarparu newyddion a hyrwyddo llythrennedd y cyfryngau, gan helpu i sicrhau bod cynnwys newyddion cyfrwng Cymraeg yn parhau i gefnogi ymgysylltiad gwybodus a hyder ymhlith cynulleidfaoedd, yn enwedig y rhai a allai deimlo nad yw fformatau newyddion traddodiadol yn eu gwasanaethu’n ddigonol.

5.7. <u>Cynnwys i blant</u>

Mae cynnwys i blant yn elfen graidd o gynnig S4C, gan gefnogi ymgysylltiad cynnar â’r Gymraeg ac annog hyder a defnydd rheolaidd o’r Gymraeg o oedran ifanc.

Mae S4C yn darparu ystod eang o gynnwys cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel ar gyfer plant cyn-ysgol, plant oedran cynradd a phlant hŷn. Mae’r cynnwys wedi’i gynllunio i fod yn briodol i oedran, yn ddeniadol ac yn berthnasol yn ddiwylliannol, gan adlewyrchu bywydau plant yng Nghymru a chefnogi dysgu drwy adloniant a gwybodaeth.

Mae cynnwys newyddion i blant yn ffurfio rhan bwysig o’r ddarpariaeth hon, gan helpu cynulleidfaoedd iau i ddeall digwyddiadau cyfoes mewn ffordd hygyrch a phriodol i’w hoedran, ac i feithrin chwilfrydedd ac ymgysylltiad â’r byd o’u cwmpas. Mae hyn yn cynnwys *Ne-wff-ion*, rhaglen newyddion ar gyfer plant hyd at chwech oed sy’n cyfuno adloniant a dysgu, a *Newyddion Ni*, rhaglen newyddion ar gyfer plant hŷn sy’n darparu cyd-destun ac esboniad o faterion cyfoes mewn fformat sy’n addas i’w hoedran a’u dealltwriaeth.

Yn ehangach, mae cynnwys i blant yn cyfrannu at lythrennedd y cyfryngau drwy helpu plant i ddatblygu sgiliau meddwl beirniadol sy’n briodol i’w hoedran a’u lefel o ddealltwriaeth. Mae’r cynnwys ar gael ar draws y gwasanaeth llinol a S4C Clic, gan gydnabod pwysigrwydd mynediad hyblyg ar-alw i deuluoedd. Drwy’r ddarpariaeth hon, mae S4C yn ceisio darparu amgylchedd cyfrwng Cymraeg diogel a dibynadwy i blant — gan gynnwys y posibilrwydd o greu proffiliau plant ar S4C Clic — a chefnogi rhieni, gofalwyr ac addysgwyr i annog defnydd o’r Gymraeg ym mywyd bob dydd.

5.8. <u>Cynnwys addysgol</u>

O fewn remit gwasanaeth cyhoeddus S4C, deellir addysg mewn ystyr eang, gan gynnwys dysgu gydol oes, dysgu iaith a dealltwriaeth ddiwylliannol, yn hytrach na darparu’r cwricwlwm ffurfiol yn unig. Mae cynnwys addysgol felly’n cefnogi dysgu a dealltwriaeth ar draws ystod o gynulleidfaoedd a chamau bywyd. Drwy raglenni cyfrwng Cymraeg, mae S4C yn helpu cynulleidfaoedd i ymgysylltu â’r iaith, diwylliant a chymdeithas yng Nghymru mewn ffyrdd hygyrch ac ystyrlon.

I blant a phobl ifanc, mae cynnwys addysgol yn cefnogi dysgu drwy raglenni sy’n cyfuno creadigrwydd, gwybodaeth ac adloniant, gan ategu addysg ffurfiol a dysgu anffurfiol yn y cartref. Mae’r cynnwys hwn yn helpu i feithrin hyder wrth ddefnyddio’r Gymraeg ar draws gwahanol gyd-destunau.

Mae dysgwyr Cymraeg hefyd yn gynulleidfa allweddol. Mae cynnwys S4C yn darparu amlygiad rheolaidd i’r Gymraeg mewn lleoliadau bob dydd a diwylliannol, gan gefnogi

sgiliau gwrando, dealltwriaeth a hyder y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer dysgwyr ar wahanol gamau, yn ogystal â siaradwyr Cymraeg llai hyderus.

Ochr yn ochr â chynnwys sydd â ffocws addysgol clir, mae S4C hefyd yn cynnwys cynnwys gwybodaeth sydd â gwerth addysgol, megis rhaglenni ffeithiol ac eglurhaol sy'n cefnogi dealltwriaeth o ddiwylliant, hanes a chymdeithas Cymru. Mae cynnwys addysgol ar gael ar y gwasanaeth llinol a S4C Clic, gan gefnogi mynediad hyblyg i ddysgwyr, teuluoedd ac addysgwyr.

5.9. <u>Adlewyrchu Cymru yn ei holl amrywiaeth</u>

Mae adlewyrchu Cymru yn ei holl amrywiaeth yn elfen graidd o'r ffordd y mae S4C yn cyflawni ei remit gwasanaeth cyhoeddus. Mae S4C felly'n ceisio adlewyrchu Cymru gyfoes yn ei holl amrywiaeth gymdeithasol, ddiwylliannol a daearyddol, gan sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu gweld eu bywydau, eu cymunedau a'u profiadau yn cael eu cynrychioli drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae cynrychiolaeth ar draws cynnwys S4C yn cwmpasu ystod eang o genres a safbwyntiau, gan bortreadu gwahanol hunaniaethau a phrofiadau byw a sicrhau bod amrywiaeth wedi'i hymgorffori ar draws yr amserlen a'r cynnig ar-alw. Mae S4C hefyd yn cydnabod pwysigrwydd amrywiaeth y tu ôl i'r camera ac yn gweithio gyda'r sector cynhyrchu annibynnol i gefnogi arferion cynhwysol o fewn timau cynhyrchu.

Mae'r dull hwn yn cael ei lywio gan waith ehangach S4C ar ei ddiben cymdeithasol, sy'n cefnogi dealltwriaeth o effaith, yn cryfhau cysylltiadau â chymunedau ac yn llywio penderfyniadau golygyddol. Drwy ei gynnwys, mae S4C yn anelu at gyfrannu at gydlyniant cymdeithasol, cynhwysiant a hyder diwylliannol, gan adlewyrchu bywyd ar draws Cymru, gan gynnwys cymunedau trefol a gwledig a bywyd diwylliannol y wlad.

Er mwyn cefnogi tryloywder a dysgu, mae S4C yn cadw ei ddull o fonitro cynrychiolaeth dan adolygiad. Yn ystod 2025, tynnodd S4C yn ôl o Diamond, y system fonitro amrywiaeth diwydiant-eang a weithredir gan y Creative Diversity Network. Mae S4C yn bwriadu cyflwyno dull monitro newydd a ddatblygir yn fewnol, mewn ymgynghoriad â sector cynhyrchu Cymru, yn ystod 2026, wedi'i deilwra i'w remit, ei gynulleidfaoedd a'i thirwedd gynhyrchu. Bydd y dull hwn yn cael ei lywio gan y data Cyfrifiad diweddaraf, gan helpu i sicrhau bod cynrychiolaeth ar y sgrin ac o fewn timau cynhyrchu yn adlewyrchu amrywiaeth Cymru yn fras.

Defnyddir monitro a mewnwelediad i gefnogi dysgu a gwelliant parhaus, gan lywio penderfyniadau comisiynu a golygyddol dros amser a sicrhau bod cynnwys S4C yn parhau i adlewyrchu Cymru yn ei holl amrywiaeth.

## 6. Trefniadau adolygu yn y dyfodol

Bydd S4C yn adolygu ac yn cyhoeddi ei Ddatganiad o Bolisi Rhaglenni yn flynyddol, gan gynnwys adolygiad sy'n cwmpasu'r flwyddyn flaenorol, yn unol â gofynion statudol a rheoleiddiol. Bydd y Datganiad o Bolisi Rhaglenni a'r adolygiad blynyddol ill dau yn cael eu hystyried gan Fwrdd S4C.